Archwilio Cymru
Audit Wales

# Cyllidebu ar gyfer y galw? Defnyddio data i gynllunio gofal preswyl i oedolion

Cyngor Gwynedd

Awst 2026

Rydym wedi paratoi a chyhoeddi’r adroddiad hwn o dan adran 17(2)(d) sy’n ei gwneud yn ofynnol i'r Archwilydd Cyffredinol fodloni ei hun bod y Cyngor wedi gwneud trefniadau priodol ar gyfer sicrhau economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd yn ei ddefnydd o adnoddau. Gallai ein canfyddiadau hefyd lywio gwaith yr Archwilydd Cyffredinol wrth asesu camau gweithredu'r Cyngor wrth gymryd camau i gyflawni ei amcanion llesiant, o dan Adran 15(1)(b) o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## © Archwilydd Cyffredinol Cymru 2026

Cewch ailddefnyddio’r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys logos ac eithrio fel rhan annatod o’r ddogfen) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng.

Os ydych yn ei ailddefnyddio, rhaid i’ch ailddefnydd fod yn gywir ac ni ddylai fod mewn cyd-destun sy’n gamarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru ac mae’n rhaid i chi roi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle’r ydym wedi nodi unrhyw ddeunydd hawlfraint trydydd parti, bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

## Os oes angen cymorth arnoch gyda’r ddogfen hon

Os hoffech ragor o wybodaeth, neu os oes angen unrhyw un o’n cyhoeddiadau arnoch mewn fformat neu iaith arall:

- Ffoniwch ni ar 029 2032 0500
- e-bostiwch ni: post@archwilio.cymru

Cewch ddefnyddio’r Gymraeg neu’r Saesneg pan fyddwch yn cysylltu â ni – byddwn yn ymateb yn yr iaith yr ydych yn ei defnyddio.

Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae Archwilio Cymru yn dilyn y safonau archwilio perfformiad rhyngwladol a gyhoeddwyd gan Sefydliad Rhyngwladol y Goruchaf Sefydliadau Archwilio (INTOSAI).

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Ciplun archwiliad | 4 |
| Ein canfyddiadau | 6 |
| Argymhellion | 11 |
| Atodiadau | 12 |
| 1 Ynglŷn â’n gwaith | 13 |

# Ciplun archwiliad

## Yr hyn yr oeddem yn edrych arno

1 Fe adolygom a yw Cyngor Gwynedd (y Cyngor) yn defnyddio data i gynllunio ei gyllidebau gwasanaeth gofal preswyl i oedolion yn effeithiol. Edrychodd yr archwiliad ar a oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno i gynllunio'n dda. Edrychodd ar a yw'n defnyddio data, a sut, i'w helpu i gynllunio'r adnoddau y bydd eu hangen arno i ddiwallu'r galw am y gwasanaeth a'i helpu i fod yn gynaliadwy'n ariannol yn y tymor hir. Adolygom hefyd a yw'r Cyngor yn gwybod a yw ei gynllunio'n effeithiol ai peidio.

2 Cwblhawyd yr adolygiad hwn ar draws pob un o chwe chyngor Gogledd Cymru rhwng mis Mawrth a mis Mehefin 2026.

## Pam mae hyn yn bwysig

3 Mae'r gyfraith yn ei gwneud yn ofynnol gosod cyllideb gytbwys bob blwyddyn[1]. Mae'r broses hon yn cynnwys rhagweld yr incwm a'r gwariant y bydd cyngor yn ei wneud i ddiwallu'r galw am wasanaethau a gofynion cyfreithiol. Rhaid i gynghorau wneud hyn o fewn eu hadnoddau sydd ar gael a meddwl am bwysau allanol, fel chwyddiant. Gall cynghorau ddefnyddio ystod o ddata ariannol a pherfformiad i'w helpu i wneud hyn. Gall hyn gynnwys ei wariant yn y gorffennol, ei dueddiadau galw disgwyliedig, chwyddiant, a dyraniadau cyllid.

[1] Dan ddeddf Local Government Finance Act 1992

4 Ar draws cynghorau, mae sawl gwasanaeth yn gorwario mewn meysydd lle mae galw am wasanaethau yn gyrru costau, fel gofal cymdeithasol. Gall peidio â chael cynlluniau cadarn yn seiliedig ar alw arwain at bwysau ariannol, ansawdd gwasanaeth is, neu gyfleoedd a gollwyd i gefnogi'r rhai sydd angen cymorth fwyaf. Bydd mynd i'r afael â hyn yn allweddol i wella cynaliadwyedd ariannol a chanlyniadau i ddefnyddwyr gwasanaethau.

## Yr hyn a ganfuwyd gennym

5 Mae gan y Cyngor set ddatblygedig o ddata i amcangyfrif y galw, a gaiff ei diweddaru'n gyson. Nid yw'r wybodaeth hon wedi'i hymgorffori'n llawn yn ei brosesau cynllunio cyllideb ac mae rhestr aros o bobl ag anghenion heb eu diwallu ar hyn o bryd. O ganlyniad, nid yw'r Cyngor yn defnyddio’r holl ddata i gynllunio ei gyllidebau gwasanaeth gofal preswyl i oedolion.

## Yr hyn a argymhellir gennym

6 Rydym wedi gwneud un argymhelliad i'r Cyngor. Er mwyn cryfhau sut mae'n cynllunio ei gyllidebau, dylai'r Cyngor wneud gwell defnydd o'r data sydd ganddo ar alw ac anghenion gofal preswyl i oedolion yn ogystal â chostau.

# Ein canfyddiadau

## Nid yw'n glir sut mae'r Cyngor yn bwriadu ariannu’r galw cyfredol nad yw’n cael ei fodloni

7 Yn ystod ein gwaith maes ym mis Ebrill 2026, roedd rhestr aros o 20 o bobl ar gyfer gwasanaeth gofal preswyl y Cyngor. Gan ddefnyddio cost gyfartalog lleoliadau, mae hyn yn cyfateb i oddeutu £1 miliwn (gros) o alw heb ei ddiwallu.

8 Mae gofal preswyl i oedolion wedi'i wario yn unol â'i gyllideb dros y tair blynedd diwethaf (**Arddangosyn 1**). Byddai bodloni'r galw heb ei ddiwallu wedi arwain at gostau ychwanegol ac wedi achosi gorwariant mewn gofal preswyl i oedolion.

9 Gorwariodd y gwasanaethau oedolion cyfan £6.1 miliwn dros yr un cyfnod. Mae'n bwysig cymhwyso unrhyw wersi a ddysgwyd ar draws gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw ac nid gofal preswyl i oedolion yn unig.

10 Fel gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan y galw, mae'n heriol i'r Cyngor ragweld a chynllunio'n gywir. Rydym yn cydnabod, o ganlyniad, y byddai'n afrealistig i gynghorau gyflawni eu cyllidebau gofal preswyl i oedolion yn union. Fodd bynnag, mae cael amcangyfrif gorau cadarn, sy'n seiliedig ar dystiolaeth i lywio cynllunio cyllideb yn cefnogi cynghorau i leihau eu gorwariant neu danwariant.

### Arddangosyn 1: gwariant refeniw gofal preswyl oedolion o'i gymharu â'r gyllideb, 2023-24 i 2025-26 (£ mil)

| | 2023-24 | 2024-25 | 2025-26 | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|
| **Cyllideb** | 30,059 | 33,625 | 35,443 | 99,128 |
| **Gwir wariant** | 30,148 | 32,663 | 36,450 | 99,261 |
| **Gwahaniaeth** | 89 gôr | 962 tan | 1,007 gôr | 133 gôr |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Gwahaniaeth canrannol** | 0% | -3% | 3% | 0% |

Ffynhonnell: Cyngor Gwynedd

## Mae gan y Cyngor sylfaen dystiolaeth ddatblygedig i ragweld y galw am ofal preswyl i oedolion yn y dyfodol a fyddai'n ei helpu i gynllunio ar gyfer y tymor hir

11 Mae gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno i gynllunio ei gyllideb gyda dull sy'n cael ei arwain gan ddata. Mae'r Cyngor wedi cynhyrchu dogfen ymchwil gynhwysfawr, Llechen Lân, sy'n nodi'r galw a'r risgiau hirdymor a ragwelir ar gyfer gofal preswyl i oedolion. Mae ei ganfyddiadau'n seiliedig ar ddata ar gyfer tueddiadau rhanbarthol, cenedlaethol a rhyngwladol. Heb gymryd camau i atal neu leihau'r galw, mae'r Cyngor yn rhagweld cynnydd o 65% yn y galw ym mhob math o ofal cymdeithasol i bobl hŷn dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae hyn â'r potensial i ffurfio sylfaen dystiolaeth gadarn a chlir i gynllunio darpariaeth gwasanaethau a chyllidebau hirdymor.

12 Mae'r Cyngor hefyd yn cadw gwybodaeth berthnasol arall. Er enghraifft, mae'n cynnal gwybodaeth am y galw, cyfraddau defnydd ei gartrefi ei hun, ffioedd a rhestrau aros. Gall cyfraddau defnydd cartrefi gofal y Cyngor ei hun fod yn is na 90%. Gall hyn lywio ei ddealltwriaeth o'r galw cyfredol am ofal cymdeithasol a'i gostau.

13 Mae'r Cyngor wedi nodi bylchau yn ei ddealltwriaeth ac mae'n gweithredu i'w lleihau. Mae wedi nodi bwlch yn nata'r Cyngor ar gyfer costau staff asiantaeth, yn ogystal â'r achos gwraidd dros y cynnydd diweddar yn y galw am ofal preswyl iechyd meddwl i oedolion. Mae'r Cyngor wedi mynd ati yn weithredol i sefydlu achosion gwraidd rhain drwy gomisiynu archwilio mewnol i ymchwilio. Mae'r Cyngor hefyd yn bwriadu cynhyrchu dogfen ymchwil debyg i helpu i ragweld anghenion plant a phobl ifanc; gwasanaeth arall a arweinir gan alw. Gallai'r dull rhagweithiol hwn ddarparu ystod gyfoethog o wybodaeth i'r cyngor i lywio ei drefniadau cynllunio cyllideb.

## Ar hyn o bryd nid yw'r Cyngor yn gwneud defnydd llawn o'r cyfoeth o ddata sydd ganddo i gynllunio ei gyllidebau a arweinir gan alw

14 Nid yw'r Cyngor yn defnyddio'r holl ddata sydd ar gael ganddo i gynllunio'r hyn sydd ei angen arno i ddarparu ei wasanaethau gofal preswyl i oedolion.

15 Mae'r Cyngor yn cynyddu ei gyllideb gofal preswyl i oedolion ar gyfer cynnydd mewn costau ond nid yw'n ystyried newidiadau yng ngalw'r dyfodol bob blwyddyn yn seiliedig ar ei ddata diweddaraf. Mae ei gynnydd yn y gyllideb yn seiliedig ar gynnydd a ragwelir mewn cyflogau a chwyddiant. Nid yw'r Cyngor wedi dangos sut y mae wedi defnyddio data i gyfiawnhau'r cynnydd yng nghyllideb y gwasanaeth yn ystod y broses gyllidebu yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

16 Bob blwyddyn mae meysydd gwasanaeth y Cyngor yn cyflwyno 'bidiau' am gyllid ychwanegol i ymateb i bwysau. Mae'r broses hon yn dechrau ym mis Medi ar gyfer cyllideb y flwyddyn ariannol ganlynol. Yn yr enghreifftiau o fidiau a welsom, roedd y galw yn seiliedig ar ffigurau'r gorffennol ac nid oedd yn ystyried newidiadau i'r dyfodol. O ganlyniad, mae cyllideb y Cyngor yn oedi ar ôl newidiadau yn y galw, gan gynyddu'r risgiau o orwario mewn sawl blwyddyn.

17 Nid yw'r Cyngor wedi defnyddio’r rhagolygon diweddaraf i osod y gyllideb mewn blynyddoedd blaenorol chwaith. Roedd y Cyngor wedi goramcangyfrif newidiadau mewn demograffeg yn y gorffennol a phenderfynodd beidio cywiro hyn i adlewyrchu newidiadau yn y galw yn yr amser ers iddo osod y gyllideb wreiddiol oherwydd y duedd gyffredinol o gynnydd mewn galw. Mae hyn yn golygu bod y Cyngor yn cyflwyno dull cyllidebol y mae'n gwybod nad yw'n adlewyrchu'r galw gwirioneddol wrth ddatblygu model demograffig newydd a mwy soffistigedig, sef Llechen Lân. O ganlyniad, mae'n annhebygol y bydd y trefniant presennol yn ei helpu i gyllidebu'n effeithiol.

18 Mae'r dull hwn yn peri risg i'r gyllideb fod yn afrealistig ac nad yw'n wybodus am y galw rhagamcanedig na'r galw cyfredol am ofal preswyl gan fod,

- rhestr aros gyfredol o 20 o bobl; a

- chynnydd rhagamcanedig o flwyddyn i flwyddyn yn nifer y bobl yn y grŵp oedran hynaf.

19 Heb ddefnyddio ei ystod eang o ddata i osod cyllidebau realistig, cadarn ac wedi'u harwain gan dystiolaeth, ni all y Cyngor sicrhau ei hun y bydd yn cyflawni gwerth am arian yn ei ddefnydd cynlluniedig o arian cyhoeddus. Mae cael cynllun cadarn a realistig yn hanfodol i gael amcangyfrif gorau ac osgoi gwariant sylweddol heb ei gynllunio a all effeithio ar feysydd eraill o gynlluniau'r Cyngor.

20 Mae gan y Cyngor ddull gwahanol o ddefnyddio data ar gyfer cynllunio ei wariant cyfalaf. Mae defnyddio data yn golygu bod ganddo ddealltwriaeth dda o'i bwysau cyllidebol allweddol ar wasanaethau yn y tymor hir. Er enghraifft, mae'n defnyddio data ar y galw rhagamcanol o fewn ei achos busnes ar gyfer cartref nyrsio newydd a ddatblygwyd ar y cyd â'r bwrdd iechyd lleol. Mae defnyddio data yn y ffordd hon yn golygu bod ganddo ffocws tymor hwy a allai ei helpu i sicrhau gwerth am arian.

## Nid yw trefniadau'r Cyngor bob amser yn ei helpu i sicrhau bod ei gynllunio cyllideb yn effeithiol

21 Mae gan y Cyngor brosesau ar waith sy'n helpu i adolygu ei wariant yn rheolaidd o'i gymharu â'i gyllideb. Mae'n cynhyrchu adroddiadau rheolaidd ar sefyllfa'r gyllideb o'i gymharu â'r galw am ei wasanaethau ac yn deall achos gwraidd yr amrywiadau. Er enghraifft, mae'r tîm cyllid yn rhoi'r rhesymau dros y gorwariant a ragwelir rhwng y trefniadau adrodd ffurfiol rheolaidd i'r gwasanaeth gofal preswyl i oedolion. Mae hyn yn galluogi swyddogion i fod yn ymwybodol o ble mae amrywiadau sylweddol i'r gyllideb a gynlluniwyd.

22 Fodd bynnag, nid oes cysylltiadau clir rhwng meysydd gwasanaeth a phroses gyllideb gorfforaethol y Cyngor. Er enghraifft, mae defnydd cyfyngedig o ddata a ddaliai’r gwasanaeth gofal preswyl i oedolion i’r broses o lunio Cynllun Ariannol Tymor Canolig y Cyngor a'r broses llunio cyllideb flynyddol.

23 Mae'r diffyg cysylltiadau rhwng cynlluniau ariannol a chynlluniau eraill yn effeithio’r gwasanaeth y mae'r Cyngor yn ei ddarparu. Ers 2024-25, mae’r Cyngor wedi cynyddu gwariant gwerth £2.5 miliwn yn y maes gofal cartref, yn ychwanegol i arian chwyddiant a chwyddiant cyflogau. Mae hyn yn cyd-fynd efo’r bwriad a nodwyd yn nogfen ymchwil y Cyngor i helpu'r nifer cynyddol o bobl sydd eisiau aros yn eu cartrefi eu hunain yn eu henaint. Fodd bynnag, nid yw gwariant helaeth ychwanegol y Cyngor ar ei wasanaeth gofal cartref wedi arwain at leihad yn y defnydd o ofal preswyl hyd yma. Nes ei fod yn gwneud defnydd llawn o’r data sydd ar gael ganddo, mae’n debygol o fod yn anoddach i’r Cyngor gynllunio ei adnoddau.

# Argymhellion

**A1** Dylai'r Cyngor gryfhau cadernid ei gyllidebau sy'n cael eu harwain gan alw drwy ddefnyddio, a dangos sut y mae wedi defnyddio, data cost a galw sydd ar gael i lywio penderfyniadau cyllidebol dros y tymor byr a chanolig (**Paragraffau 15 i 19**).

# Atodiadau

# 1 Ynglŷn â'n gwaith

## Cwmpas yr archwiliad

Roedd yr archwiliad yn ymdrin â defnydd y Cyngor o ddata wrth gynllunio ei gyllidebau ar gyfer ei wasanaeth gofal preswyl i oedolion sy'n cael ei arwain gan y galw. Roedd hyn yn cynnwys gofal preswyl a nyrsio i oedolion dros 18 oed - mewn cyfleusterau a ddarperir gan y Cyngor a'r rhai a gomisiynwyd gan bartneriaid eraill.

Edrychodd ar a oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno, ac a yw a sut mae'n defnyddio data i lywio'r adnoddau sydd eu hangen mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw i gefnogi cynaliadwyedd ariannol hirdymor. Adolygodd hefyd a oes gan y Cyngor drefniadau i'w helpu i sicrhau bod ei gynllunio cyllideb yn effeithiol.

## Cwestiynau a meini prawf archwilio

### Cwestiynau

Atebodd ein harchwiliad y cwestiynau canlynol:

- A oes gan y Cyngor y wybodaeth sydd ei hangen arno wrth gynllunio ei gyllideb mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw?
- A yw'r Cynghorau'n defnyddio data i lywio'r adnoddau sydd eu hangen mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw?
- A oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau bod cynllunio cyllidebau mewn gwasanaethau sy'n cael eu harwain gan y galw yn effeithiol?

## Meini prawf

Wrth ddatblygu'r meini prawf archwilio, rydym wedi tynnu ar ganllawiau Tachwedd 2020 gan y Sefydliad Siartredig ar gyfer Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddu (CIPFA) ar gynllunio i ddarparu gwerth da mewn gwasanaeth sy'n cael ei arwain gan alw. Rydym hefyd wedi ychwanegu at hyn gyda'n gwybodaeth a'n profiad archwilio cronnus, yr ydym yn ei ennill o gwblhau archwiliadau ariannol a pherfformiad.

# Dulliau

Defnyddiodd yr archwiliad y dulliau canlynol:

- adolygu dogfennau – fe wnaethom adolygu dogfennau perthnasol y Cyngor, megis y gyllideb a phapurau'r pwyllgor;
- cyfweliadau – fe wnaethom gyfweld â swyddogion allweddol; a
- dadansoddi data – fe wnaethom edrych ar ddata a ddefnyddiwyd gan y Cyngor wrth osod ei gyllideb.

# Amdanom ni

Mae Archwilydd Cyffredinol Cymru yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru a'r Senedd. Swyddogaeth yr Archwilydd Cyffredinol yw archwilio ac adrodd cyfrifon Llywodraeth Cymru, y GIG yng Nghymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig eraill, ynghyd â chyfrifon cynghorau a chyrff llywodraeth leol eraill. Mae'r Archwilydd Cyffredinol hefyd yn adrodd defnydd y sefydliadau hyn o adnoddau ac yn awgrymu ffyrdd y gallant wella.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol yn cyflawni ei waith â chymorth staff ac adnoddau eraill gan Swyddfa Archwilio Cymru, sef corff a sefydlwyd i gefnogi, cynghori a monitro gwaith yr Archwilydd Cyffredinol.

Archwilio Cymru yw term ambarél Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru. Mae'r rhain yn endidau cyfreithiol ar wahân ac mae ganddynt swyddogaethau gwahanol a amlinellir uchod. Nid yw Archwilio Cymru ei hun yn endid cyfreithiol.

Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

P2241